# Faint?

Family Maths Toolkit

**Os byddwn yn teithio i rai gwledydd, bydd angen i ni newid ein punnau am arian cyfred y wlad honno – gelwir hyn yn 'gyfnewid'. Mae'r cyfraddau cyfnewid yn amrywio ond mae'r tabl hwn yn dangos y cyfraddau cyfnewid ar un diwrnod.**

| Cyfraddau cyfnewid | |
|---|---|
| DU £1 (Punnau'r DU) | UDA $1.46 (Doleri'r Unol Daleithiau) |
| DU £1 | Ewros €1.32 |

Mae byrgyr yn Llundain yn costio £4.57. Faint y byddai'r un byrgyr yn ei gostio yn UDA mewn doleri?
Mae pizza yng Nghaerdydd yn costio £3.50. Beth a fyddai cost y pizza yn Ffrainc mewn ewros?
Roedd blwch o fefus yn costio £2.60 yng Nghaeredin. Faint y byddech yn ei dalu am y mefus yn Sbaen gan ddefnyddio ewros?
Mae tocyn dydd Euro Disney yn costio 79 ewro os byddwch yn ei brynu yn y parc. Faint o bunnau y byddai angen i chi eu cynilo i dalu am 5 tocyn?
Meddyliwch am 3 pheth arall y gallech ddymuno eu prynu yn y DU, neu y gallai eich ffrindiau neu'ch teulu ddymuno eu prynu. Faint o arian y byddai angen i chi ei gyfnewid er mwyn gallu eu prynu yn UDA ac yn Ffrainc?

**Sylwadau'r teulu:**

**Sylwadau'r plentyn:**

**Cyswllt Cwricwlwm**

Lluosi a rhannu rhifau amlddigid, gan gynnwys degolion yng nghyd-destun arian i ddatrys problemau; talgrynnu rhif i raddau o gywirdeb.



Hawlfraint © NationalNumeracy 2021. Gwaherddir copïo, llogi a benthyca masnachol. Rhif elusen gofrestredig: 1145669


# Cynigion archfarchnad

Family Maths Toolkit

**Roedd yr archfarchnad leol yn arddangos y cynigion arbennig hyn:**

- **Câi pecyn o dabledi fitamin (90) eu gwerthu ar gynnig o '3 am bris 2', a phris gwreiddiol pob pecyn oedd £1.80.**
- **Roedd pecyn o'r un tabledi fitamin (30) ar gynnig o '3 am bris 2', a phris gwreiddiol pob pecyn oedd 70c**

Pa un yw'r fargen orau?





Hawlfraint © NationalNumeracy 2021. Gwaherddir copïo, llogi a benthyca masnachol. Rhif elusen gofrestredig: 1145669

Roedd tuniau o gawl yn cael eu gwerthu am 59c yr un neu ar gynnig 'Prynu un a chael un arall am ddim'.

Câi’r un tuniau eu gwerthu ar ffurf pecyn o 4 am £1.20. Pa ffordd yw'r rhataf i brynu'r cawl hwn?

A allwch ddod o hyd i gynnig arbennig yn eich siopa teuluol – a ydych yn meddwl ei fod yn fargen dda? Pam?

- £2.48 am becyn amrywiaeth (62 bisged)
- Roedd pecyn sengl o fisgedi (20) yn 82c
- Neu roedd '3 am bris 2' yn £1.35 yr un (10 bisged mewn pecyn)
- Roedd cynnig ‘Prynu un a chael un arall am ddim' yn cyfeirio at becynnau o 15 bisged am 90c

**Her -**
Pa ffordd yw’r rhataf i brynu’r bisgedi hyn?



**Sylwadau'r teulu:**

**Sylwadau’r plentyn:**

### Cyswllt Cwricwlwm

Lluosi a rhannu gan ddefnyddio rhifau cyfan a hyd at 2 le degol yng nghyd-destun arian.



National Numeracy
Getting on with numbers

Hawlfraint © NationalNumeracy 2021. Gwaherddir copïo, llogi a benthyca masnachol. Rhif elusen gofrestredig: 1145669

# Paratoi tatws pob


Family Maths Toolkit

**Ar gyfer cinio ei deulu, mae Kasan yn defnyddio 60% o dun o diwna ar bob taten bob.**

Mae ganddo 4 tun o diwna. Faint o datws y gallai eu gorchuddio?

Mae hefyd yn defnyddio tybiau o gaws wedi'i gratio. Mae'n defnyddio 15% o dwb mawr o gaws ar bob taten ac mae ganddo 3 thwb o gaws – ar faint o datws y gallai roi caws?

**Awgrym defnyddiol:** Tynnwch luniau'r tuniau a'r tybiau ac yna'u rhannu i'r canrannau (neu eu trosi i'r ffracsiynau) gofynnol.



**Sylwadau'r teulu:**

**Sylwadau'r plentyn:**

**Cyswllt Cwricwlwm**

Datrys problemau sy'n cynnwys canrannau a'r defnydd o ganrannau i gymharu.



Hawlfraint © NationalNumeracy 2021. Gwaherddir copïo, llogi a benthyca masnachol. Rhif elusen gofrestredig: 1145669